

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 189
Tachwedd 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Harri Williams
Nico, Llanfairpwllgwyngyll

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy cymuned.llennatur@gmail.com



Y Stand Laeth

...a gwledd o atgofion melys



Milk churn collection from a roadside stand near the creamery in Llandyrnog. Full churns were put onto the lorry and empties were put on the stand in their place. 1940. Note, the cab was made from wood. Tom Jones-Parry

Y stand laeth - rhan o hanes. Pa mor bell oddiwrth eich tŷ chi yw'r stand laeth agosaf mae'n bosib ei adnabod o hyd. Da gweld nhw'n cael eu cymryd o ddi-fri. Cysylliedig efo'r Bwrdd Marchnata Llaeth oedden nhw ynde, tra parodd hwnnw — felly dim yn 'hanesyddol' fel y cyfryw efallai. Ond fel dwi'n hoff o ddweud, mae hanes yn dechrau ddoe!

Dew, those days were great times, in my early years i used to do my best to roll the churns out of the "ty cwler" and onto the link box of the Massey Ferguson 135. That was after I had helped myself to a few cups of milk. That was early seventies. Then I progressed to milking at Penrhiw Aberarth, filling in when they were short staffed for Mr John Lewis. Fantastic times when everyone helped each other. Then the driver from MMB Felinfach, one of which was Berwyn Davies, Alban Square, Aberaeron, a larger than life character with a fantastic base baritone voice would come round to collect the full churns and leave empties for the next collection. He always cracked a joke or two.

Great times even better memories.

Meurig Lloyd



Gwaelod lôn! Nant, Mynytho, i chofio mewn defnydd tan ddiwedd y 60au pan ddaru fy Nhad ymdddeol o odro. **Mair Evans**


nos Sul ar gyfer yr wythnos i ddod.

Greta Hughes

Dyma bwnc difyr! Roedd gan nhaid fferm gan erw (sylweddol adeg hynny, decini). Dyna un o'm tasgau pob bore pan roeddwn draw yn ei helpu, oedd ei gynorthwyo i godi'r caniau (siwr bod enw gwell ganddo na can, ond mae'r cof yn pallu!) i ben y stand. Os cofia i, deg galwyn oeddent, ac roedd y diawled yn drwm. Be oedd yn fy nghorddi(!) oedd fod taid wastad yn dwyn yr ochr ore, a bod rhaid i mi gael fy llaw wanaf dan y can. Wnes i ofyn iddo newid, ond gwrthod wnaeth o! Roedd y stand rhyw hanner milltir o'r fferm, ar gyrion Y Fali, ar ochr yr A5. Dwi ddim yn ymweld â'r ynys yn aml dyddie yma, ond fe edrycha i tro nesa...

Hywel Jones

Ie, caniau 10 galwyn oeddynt ac fe roedd tipyn o bwysau arnynt i'w codi rhyw 3 troedfedd go dda i gyrraedd lefel y pulpud/standing llaeth a fyddai'n



A dyma'r Stelin laeth ger ffermydd Dynanau a Thir Bach (rhwyng Rhos-lan a Llanystumdwyl). Tydi hi'n un fach ddel? **Awen Hamilton**

fwriadol yr un uchder â lefel y lori laeth. Stand laeth tu allan i dy Mamgu Crossvilla, Ffosyffin. Ac ar gornel Spite, Lledrod. Ac roedd un ar ben lôn cartre'r gŵr, Bryn Dewin, Chwilog. Llawer o atgofion o'r mynd a dod a'r sgysie ar y stand laeth cyn daeth y tancers mawr. (Roedd tad y gŵr yn gorfod godro yn gynnar iawn i gyrraedd pen lôn cyn y lori laeth).

Awen Hamilton

Os cofiaf yn iawn, stondin laeth oedden ni'n ei galw? Lori yn cyrraedd tua 10.30-11.00 yn y bore. Dal yma gyferbyn â giât y ffordd. Cael mynd am dro ar y lori a Glyn, Borth y Gest yn canu tenor nerth esgryn ei ben. Oedd hi'n haf hirfelyn tesog hefyd?

Nans Rowlands

—Stelin laeth dwi'n gofio, tua hanar milltir o'r fferm, wedi diflanu rwan (dwi'n cofio hefyd bydda y papura newydd, ac mwy pwysig i mi, y 'comics' yn dwad efo'r bys a cael ei gadael ar y stelin

Margaret Wyn Woodcock

—Neis! Defnydd amgen. Pa gomics? **DB**

—Beano a Dandy i fy mrodyr a School Friend i fy chwaer fawr a Topper i mi. 'Sgwennu hwna rwan yn neud i ni sowndio yn gyfoethog iawn ond toedda ni ddim - Dim teledu adag hynny. **MWW**

—Y Dandy o'n i'n cael (cymeriadau da neu twp dwi'n cofio - Korki the Cat, Despred Dan). Oni'm yn cael y Beano adra gen mam (plant drwg dwi'n cofio, Minnie the Minx, Dennis the Menace) er mai hwnnw o'n i eisio, ac yn ei gael o wedyn yn ysgol Waun. Roedd Topper yn rhyw fath o 'Lib Dems', yno i blesio pawb (Lord Snooty). School Friend - diniwed i ferched! Dyddiau diniwed... **DB**

Mary a Megan Gwydir Mawr yn eu powlio i fyny'r allt ar tryc bach, Huw Glyn Evans Llwyn yr Aethnen yn eu cario ar ei gefn.

Gwenda Williams

Ydi - llifio to'r fan fawr nefi blŵ i ffwrdd, wedyn llifio'r ochra' i lawr i greu tryc i gario cania' llaeth a bêls gwair. Wedi cael reid yn y trwmbar lawer gwaith. **AH**

Dwi'n ein cofio'n chwarae yn genod ar hen dryc llaeth oedd yn arfer cael ei ddefnyddio i fynd â'r caniau i ben lôn i'w gosod ar y stêj, cyn i Dad gael fan mae'n siwr. Roeddem yn ei ddefnyddio wrth chwarae carnifal ar gyfer y 'cwîn' a'i hosgordd degana'.

Meinir Pierce Jones

Byddwn yn cael pas gan Wil yn y lorri laeth o ben lôn fy nghartref i'r safle bws ar fy ffordd i'r Ysgol erstalwm.

Alun Hughes Williams

Y Stej Laeth

Dyma'r llwyfan fu'n dathlu,
Perfformiadau buchesau'r fro,
Drwy gyfrif y cania a phrofi,
Mod i'n well ffarmwr na fo!

Elwyn Jones

Profiad yn ystod gaeaf caled 1963

29/1/1963

Lle: Esgairdawe, Sir Gaerfyrddin

Ffynhonnell: Dyddiadur Defi Lango, Esgerdawe

Nodiadau: *The milk lorry took our milk from the stand at the end of the lane today - it's nearly 5 weeks since it was picked up from there*

Byddai'n arferiad lleoli'r stand laeth yng nghysgod coeden ddeiliog fel masarnen fawr i gysgodi'r churns llaeth rhag yr haul. Deg galwyn fyddai'r churns ran amlaf. Ond byddai churns hanner maint i dyddyn un fuwch. **Alan Evans**

Mae'r cofnod hwn yn awgrymu bod rhyw fath o drefn gydweithredol efo lori laeth (ond ddim stondin efallai) yn bodoli ddechrau'r rhyfel (1940). **Mwy o hanes os gwelwch yn dda.**



Mae ambell stand lath yn dal i fod yn ddefnyddiol. Fe wnes i dynnu'r llun yma o gapel Bwlch-y-corn, ger Caerfyrddin, tra'n sefyll ar ben y stand lath sydd gyferbyn â'r capel!

Golygydd

Cofio dyddiau'r lori laeth yn y 1940au yn dda - yn foreol yn dod i fyny Dyffryn Nantlle am Ryd ddu ac yn codi ein can llaeth ni oddiar y "bulpud llaeth" a wastadwyd yn y tir uwchben y ffordd gan fy nhad.

Hefin Williams

—Yr hen gar/fan gan Hughie dwi'n gofio. Ydio wir iddo fo addasu'r car a'i droi'n rwbath tebyg i *pick-up truck* ei hun?!

Brenda Jones

—Ydi, llifio to'r fan fawr nefi blw i fwrdd...

AH

Cofio Uncle Moi ar ei rownd o Hufenfa Meirion yn codi churns o'r rhain ar ei rownd drwy Trawsfynydd ac yn ôl drwy Bennantliw. Minnau'n agor y gatiu iddo ar y ffordd.

Alwyn Evans

Un ar Rhos Botwnnog i ffarm Berthlwyd deg galwyn i'r fuddai??deg galwyn i fynnu at y gwddw a marcia ar ei ochor yn dangos galwyn i fynnu at ddeg dwy handlan un bob ochor i'r gwddw a'i "chorcyn" yn dyn i nadu colli dim rhwng y ffarm a'r ffatri laeth yn Rhydygwystyl, Chwilog Hufenfa De Arfon.

John Ginger Vevar

Siarad efo cyfaill o deulu o dyddynwyr sir Fôn ddoe - a dysgu pethau! 'Llefrith' iddo fo oedd yr 'wholemilk' a ddeuai yn syth o bwrs y fuwch ac i'r jwg ar y bwrdd (er mai 'llaeth' o bwrs y fuwch oedd yn yn caniau llaeth uchod). Ar ei dyddyn o byddai peth o'r 'llefrith' yn cael ei hel trwy'r 'separator' i wahanu'r 'llaeth' (i wneud menyn) a'r 'maidd' i'w roi i'r llouau. Tybed beth oedd y broses cyn dyddiau'r 'separator' – a phryd oedd y rhai cyntaf?

DB

Cadarnhad, a phrofiadau gwahanol, gan eraill, os gwelwch yn dda. Oes gan rhywun lun o'r 'separator'.

Golygydd

Cofio hyn yn dda, ond y separator wedi hen fynd, felly dim llun. Gyda llaw, Brynlllefrith ydy enw'r fferm nesa yma.

NR

Yn y gân werin "Yr Hufen Melyn" :

"... ac uwch ei **chunnog** laeth
O gwyn fy myd
Cefais felys win ei gwefus
Wedi ofnus oedi c'yd..."

Ym mhen lôn fy nghartref erstalwm, yn aml, cawn lifft yn y llyri laeth i safle'r bws ysgol. Byddai Doris y becws yn gafael dwy dorth mewn can laeth wag i ni bob wythnos.

Alun Hughes Williams

Doedd stand llaeth ddim yn bodoli o gwbl yn Llydaw. Rhywbeth hollol newydd i mi pan ddois i i fyw yng Nghymru. Mae gen i lun (isod) o'r potiau llefrith (*podou laezh/pots de lait*) wedi eu gosod yn drefnus.

1967, Keroulaz - Plwyf Persken (Canol Llydaw, Mor-Bihan/Morbihan): doedd 'na ddim stondinau llaeth yn Llydaw. Roedd y lori yn mynd i nôl y llefrith ar iard pob fferm. Mae'r tŷ mawr a'r pydew o flaen y ffenestr yn dyddio o 1875. [**Hanes y pydew**, pydew Keroulaz] Yn y tŷ mawr roedd fy rhieni yn dihufennu'r llefrith a gwneud menyn eu hunain tan tua 1970. Tŷ fy nhaid a nain yw'r tŷ bychan ar y dde. Mae'r iard yn edrych yn daclus iawn, roedd yn arfer cael ei ysgubo'n rheolaidd.

DK



Geirfa'r 'stand'	a'r gasgen
stêj (Trefor, Llyn)	can(iau)
stelin(g) (Uwch Gwyrfaï, rhoslan)	cansen laeth (i gario'r gasgen i'r stand)
pulpud	stên (Waunfawr)
standing	

Mae'n rhyfeddol i mi sut y datblygodd y fath eirfa am rhywbeth mor syml dros gyfnod mor fyr.

Golygydd



Adlewyrchiad yn y ffenest



Roedd y boi yma yn ymosod ar ei adlewyrchiad yn fy ffenest ddoe (yn Garndolbenmaen)... **Haniaethol Gwilym**

Cudyll Bach

Cudyll Bach

Mynydd Hiraethog

1 Tachwedd 2023

Dys Griffiths



Tywydd Medi 2023

Tywydd Medi Maes Gwynedd, Waunfawr








Diolch i Gethin Pritchard

Medi 2023 oedd y mis Medi poethaf ym Mhrydain ers dechrau cofnodion swyddogol. Ac roedd tymheredd cyfartalog y mis yn 0.5°C uwch na'r uchaf a gofnodwyd cyn hynny – naid syfrdanol o fawr a ysgogodd un gwyddonydd hinsawdd i ddweud '*gobsmackingly bananas*'!


Sylwch ar y newid yn **y gwlithbwynt** yn y graff cyntaf (cromlin werdd). Pan oedd y don o wres yn ei hanterth ddechrau'r mis, gwres **sych** oedd hi - gwlithbwynt isel o gymharu ar tymheredd (cromlin goch). Roedd y gwlithbwynt yn arbennig o isel tua'r 5ed pan gyrhaeddodd y tymheredd 30°C . Mae hynny'n wres cymharol cyffyrddus sydd yn caniatáu i ni chwysu ac felly ymoeri. Ymsefydlogodd y tymheredd ar lefel is o'r 13eg ymlaen, rhwng 15° a 20°C y rhan fwyaf, ond y glaw erbyn hynny oedd yn cyfri am y gwlithbwynt cymharol uchel. Cododd y gwynt tua'r un pryd. Parhaodd y 'gyfnewidfa' rhwng gwynt y gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin o'r misoedd blaenorol.

September 1, 2023 - September 30, 2023

Sep 01 Sep 07 Sep 13 Sep 19 Sep 25 Oct 01



Cyfres o luniau tywydd mis Medi 2023



21 Medi 2023
(Bae Temadog, Greta Hughes)

Dyma rai cofnodion a lluniau y gallem briodoli i'r gyfres tywydd mis Medi o Faes Gwynedd:




Ysguthan yn bwydo dau ifanc, Aberogwen, heddiw, 29ain Medi, 2023. Greta Hughes



Waunfawr 26 Medi 2023
(Anita Myfanwy)



Troellig yr hydref, ardal Trelawnyd, Medi 5, 2023. Eifion Griffiths



Gwas neidr mudol, Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Medi 23, 2023. Eifion Griffiths

Tywod o anialwch y Sahara

Medi 7ed, Trefnant.

Tywod o'r Sahara yn gorchuddio'r car

Alun Williams




Dyma gwpl o gofnodion i'w gweld ar fap (map tud.7)

- ... **proffwydoliaeth** hyn 2 ddiwrnod yn ôl
- ... yn Aberaeron - cael y car wedi ei olchi yn Llanfarian, ar y ffordd i Aberystwyth a mynd i gael cinio yn 'Pennau Crafts' yn Bow Street... nôl at y car ar ôl cinio ac mi roedd o mewn gwaeth cyflwr na cyn ei olchi

Geraint H Ashton

Pwysais 0.0137g oddi ar arwynebedd 0.36m² [o 'dywod y Sahara' a laniodd ar ein ffenestri a'n ceir y 7 Medi eleni]. Os y digwyddodd yr un peth tros Gymru gyfan (20,779 km²), yna buasai 791 kg o dywod wedi disgyn yn ein gwlad.

Iwan Williams



■ Yr oedd ffenestr flaen y car yma yng nghyffiniau Eglwysbach hefyd erbyn y p'nawn wedi ei gorchuddio â llwch melyn. Gan na chafwyd glaw i roi'r bai arno, daethpwyd i'r casgliad (rhyfeddod, a dweud y lleiaf!!) mai cyddwysiad (*condensation*) oedd yn gyfrifol a rhaid bod y gwlybanaeth wedi sychu yn syth yn y tês gan adael "mân-dywod o'r Sahara" bell ar ei ôl !!

Hefin Williams

■ Tybed Hefin ddaru chi fethu'r gawod - roedd o mor fyr mi ballodd ddangos ar y mesurydd yma yn Waunfawr?

Golygydd

■ *Nuts!* Mae hyn wedi hollol ffrwydro 'mhen i!

Angharad Owen

■ Pob car yng Nghaernarfon efo fo heddiw. Nid yw'n dod i ffwrdd wrth olchi'r ffenest efo'r weipars!


Margaret Roberts

■ 'Wedi rhoi magnet ar y llwch - dim atyniad'.

Iwan Williams

Mae **Wiki yn dweud** bod haearn yn gallu bod yn reit uchel yn llwch y diffaethwch yma

Don Perkins o Lansadwrn, Môn ar ei wefan - "Ar y 7fed roedd y gwasgedd yn uchel 1028 mb Dn Ewrop ac yn isel 998 mb dros Fôr yr Iwerydd i'r De-Orllewin gan gael yr effaith o dynnu i Brydain aer cynnes llawn llwch o Fôr y Canoldir a gogledd Affrica..."




On the 7th pressure was high 1028 mb E Europe and low 998 mb over the Atlantic to the SW this having the effect of drawing to Britain dust laden warm air from the Mediterranean and north Africa.

The highest 27.3°C was on the 8th under a milky dust laden sky (see below). Weather was misty and thundery early with spheric recorded at 0505 GMT in the Porthmadog area...

The ten days 5th to 14th had deposits of dust collected every day at 0900 GMT that originated in the Sahara desert, the highest number of consecutive days I can remember seeing. Trace amounts of a light coloured dust were observed at 09 GMT on the mornings of the 5th and 6th were dry deposition when a milky sky was observed dust pooling over Britain with little air movement. On the 7th the dust collected as wet deposition was more obvious. Backward trajectory analysis using the HYSPLIT model, courtesy of the NOAA ARL READY website, indicated that parcels of air arriving over Llansadwrn between 2000 and 3000 m AGL originated passing over north Africa. Most deposition was on the 8th when vehicles were obviously covered with a heavy deposition, on drying the dust was a light reddish brown colour MUNSEL® 2YR 6/3. Air quality in England was poor with moderate to high PM2.5 values recorded in places. More dust deposited dry was collected on the morning of the 9th and on the 10th rare 'thunder dust' was collected wet after thunder heard at 0728 GMT. Dust continued to be observed in trace amounts on the 11th to 14th.

NOAA HYSPLIT MODEL
Backward trajectories ending at 0600 UTC 07 Sep 23
GDAS Meteorological Data



Dyma darddiad y llwch yn ôl **gwaith y meteorolegyd d Don Perkins o Lansadwrn**, Môn ar ei wefan

Dyma graff i ddangos y tywydd ar y 7ed. Roedd y gawod a gludodd y llwch yn rhy ysgafn i gael ei gofrestru ar y mesurydd yng ngorsaf dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr (y llinell goch yn dangos y 7ed)

Mae yna sôn am gawodydd trymion mawr ym mis Medi yndoes, 'sgrympiau Gwyl y Grog'? Be ydych chi'n feddwl '**sgrwmp**' am gawod neilltuol o drwm?! Mae o yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru. Dwi'n deud 'sgrwmp'. Ddudis i heddiw ddiwethaf ei bod wedi glawio fatha 'sgrwmp' ar ôl y cyfnod boreol heb law echdoe. 'Mi ddoth yn sgrwmp'. Dwi'n falch o glywed bod eraill yn dweud 'sgrwmp' Arfon **Meinir Pierce Jones**

Yn hoffi'r gair hwn yn fawr! Sgrwmpen yn cyfleu cawod drom iawn!! erioed wedi clywed y gair Meinir! **BW**

'Un o sgrympia Gwyl y Grôg' ddeuda i.

Rhian Williams

'**sgrympiau** gwyl y grog' - mwy o gawodydd trwm, un ar ôl y llall

Mae'r **nefoedd wedi agor**.

Mae'n **tasgu lawr**. Brynaman

Janet Bowen

Yn hoffi 'tasgu lawr' oherwydd mae'n cyfleu glaw trymach nag arfer! **BW**

Fel un o Frynaman r'wyn cytuno, hefyd 'mae'n **pistillo**, a **glaw tyrfe**.

Gwenda Morgan

Cenlli neu **bwrw o grwc** ydan ni'n ei ddweud am law trwm iawn. Defnyddio amryw o ddywediadau eraill am law hefyd. De Sir Ddinbych

Minah Drew

Bwrw fel o grwc, Arfon. [Ond] credu ei fod yn gamgymeriad i gyfieithu air am air os nad oes cyfieithiad amlwg. Gwell arall eirio efo iaith naturiol sy'n cyfleu'r un peth. Sylwad gan rywun heb gefndir cyfieithu ond weithie y darllen pethe sy'n fy nharo'n chwithig ac annaturiol. **Glau tranne, styllio glawio**, baswn i'n deud. Glynceiriog

Gillian Burns

Pistyllio glaw. Rhuthun

EB-E

Nefoedd wedi agor. Nefyn

JL

Bwrw hen wragedd a ffyn. Llithfaen

GCI-P

M'e'n pisho lawr... (mae'n arllwys y glaw - os ydych mewn cwmni parchus!). Llanelli

NMW

Stido - Sir Gaernarfon

GP

Stido bwrw. Treshio / tywallt / pistillo glaw.

Nefoedd wedi agor. Llanystumdwy/Penygroes

PH

fe agorodd y nefoedd! Brynaman

BP

Stido bwrw neu dymchwal y glaw.

Tywallt y glaw. Nantlle

MR

Treshio bwrw.

GR

Mae'n diwel y glaw. Mae'n arllwys y glaw -

Llandysul

PE

Trochiad!

MEC-W

Cofio clywed hen ffarmwr yn defnyddio y term torgwmwl nol yn y 70au. Parc, ger y Bala.


GE

Bob amser yn anodd cyfieithu dywediad ynfyd fel 'cloudburst'.

Hywel Owen

Tywod o Anialwch y Sahara

7 Medi 2023



Dyma fap o bob ardal a dderbyniodd ddogn o lwch y diwrnod hwn

Torgwmwl

Oes gennych air Cymraeg am 'cloudburst'? Mae Geiriadur yr Academi yn cynnig 'torgwmwl'. Oes hen air yn bodoli? **Beryl Williams**



Ynfyd neu beidio bu digon o ddefnydd o'r cysyniad o torgwmwl (GPC) a ffurfiau tebyg. Mae'r drafodaeth yn dangos i mi bod torgwmwl yn disgrifio cawod trwm iawn, sydyn, unigol. Mae'n wahanol i sgrympiau (*squall(s)*, *squally* efallai?) sydd yn ysbeidiol ac yn gysylltiedig â gwynt hyrddiol. Ond ynfyd? Idioma Saesneg, y wreiddiol, sydd wedi cael ei ddefnyddio gan werin bobl i gyfleu ffenomenon unigryw yn eu byd. Ynfyd? - go brin Mr Owen!

Llên Natur



- 1 Cloch fach
- 2 Gwerthwyd wen
- 3 Cap cwyr clærwen
- 4 Corn carw melyn
- 5 Cwrel cribog
- 6 Siantrel cornffurf
- 7 Cap cwyr y ddol
- 8 Siantrel
- 9 Wicsen gron
- 10 Coden fwg euraid
- 11 Pinau draenog y coed
- 12 Amanita wridog

